CYTUNDEB HURIO Rhif y cwsmer: _____

Dyddiad cychwyn: __ __ / __ __ / __ __ Dyddiad Terfyn: __ __ / __ __ / __ __

Rhwng **"Yr Huriwr"**: *(nodwch enw & cyfeiriad)* _____

_____

Rhif Ffôn dydd: _____ Rhif Ffôn Nos: _____ Ffôn Symudol: _____

E-bost: _____

A Telynau Teifi **("y cwmni")** sydd yn cytuno i hurio Telyn model **EOS**

Rhif Telyn: _____ i'r cwsmer "Profi cyn prynu" ar y telerau isod:

1. **Cost Hurio:** £60.00 y mis (yn cynnwys TAW ac yswiriant), i'w dalu ymlaen llaw
   3 mis cyntaf i'w dalu ymlaen llaw ar gychwyn y cytundeb
   4ydd – 12fed mis i'w dalu trwy archeb banc yn fisol
   Mae gan y cwmni'r hawl i newid y gost hurio ar un o'r cyfnodau adolygu

2. **Blaendal:** Bydd yr Huriwr yn talu blaendal o £100 i'r Cwmni cyn dechrau'r cyfnod hurio. Ad-delir y blaendal ar ddiwedd y cyfnod hurio os dychwelir y delyn yn brydlon a heb ei difrodi.

3. **Cyfnod:** Cyfnod lleiaf o hurio yw 3 mis a'r cyfnod mwyaf bydd 12 mis.

4. **Cyfnod adolygu'r cytundeb hurio:** Gall yr Huriwr archebu telyn newydd o'u dewis ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hurio, am bris gwerthu cyfredol y delyn ar adeg ei phrynu. Bydd cyfran o'r pris hurio a dalwyd hyd at y dyddiad hwnnw yn cael ei osod yn erbyn pris model cyfwerth fel a ganlyn:

Pedwar cyfnod adolygu gydag opsiwn i brynu	**0 – 3 Mis**	**6 Mis**	**9 Mis**	**12 Mis**
Dyddiad adolygu				
Tâl hurio talwyd i ddyddiad	£180	£360	£540	£720
% o gost hurio i'w ad-dalu os prynir y delyn	100%	75%	50%	25%
Swm ag ad-delir	£180	£270	£270	£180

Os bydd cwsmer yn dymuno archebu model gwahanol o delyn, bydd canran o'r ffioedd hurio ag ad-delir yn dibynnu ar y model a ddewiswyd – byddwn yn hapus i roi cyngor am hyn ar sail unigol.

5. **Yswiriant:** Y cwmni fydd yn yswirio'r delyn. Mae'r Huriwr yn cytuno i ofalu am y delyn, i'w chadw mewn amgylchedd priodol, a'i chludo â gofal

6. **Niwed:** Os collir neu os difrodir y delyn, mae'r Huriwr yn ymgymryd i hysbysu'r cwmni ar unwaith dros y ffôn neu drwy e-bost. Ni ddylai neb ond Telynau Teifi wneud unrhyw waith trwsio neu gynnal a chadw ar y delyn

7. **Casglu'r/Dychwelyd:** Yr Huriwr sy'n gyfrifol am gasglu'r delyn ar gychwyn y cyfnod hurio, ac am ddychwelyd y delyn i Telynau Teifi yn Llandysul heb fod yn hwyrach na diwrnod olaf y cyfnod hurio. Os dychwelir y delyn yn hwyr, tynnir swm o'r blaendal a ad-delir, a'r Huriwr fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau a delir gan y cwmni wrth adfeddiannu'r delyn.

8. **Defnydd o'r delyn:** Ni chaiff yr Huriwr ddefnyddio'r delyn at ddibenion masnachol, na hurio'r delyn i unrhyw drydydd parti. Os yw'r Huriwr yn dymuno i'r delyn gael ei defnyddio gan rywun na enwir yn y Cytundeb hwn, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig wrth y cwmni.

9. **Tannau:** Yr Huriwr sy'n gyfrifol am newid unrhyw dannau sy'n torri neu a ddifrodir. Dylid cael y tannau oddi wrth y cwmni.

10. **Newid Cyfeiriad/Rhif cyswllt:** Rhaid i'r Huriwr hysbysu'r cwmni yn syth os oes newid i gyfeiriad neu rif cyswllt.

11. **Costau Gweinyddol:** Cadwn yr hawl i godi tâl o £15 am unrhyw Daliadau Rheolaidd hwyr neu anghywir.

12. **Terfynu Cytundeb Hurio:** Mae gan y cwmni'r hawl i derfynu'r Cytundeb Hurio os:

    Bydd yr Huriwr yn methu talu'r gost hurio ar y dyddiad pan fo'n ddyledus;

    neu

    os bydd yr Huriwr yn torri unrhyw amod yn y Cytundeb Hurio hwn.

    Os terfynir y Cytundeb yn unol â'r cymal hwn, yr Huriwr fydd yn gyfrifol am ddychwelyd y delyn i Telynau Teifi yn Llandysul o fewn 7 diwrnod o'r dyddiad hwn. Os bydd rhaid i Telynau Teifi adfeddiannu'r delyn, tynnir y gost o adfeddiannu o'r blaendal.

Arwyddwyd _____ (Huriwr) Dyddiad _____

Arwyddwyd _____ (Telynau Teifi) Dyddiad _____

TELYNAU TEIFI CYF
THE HARP CENTRE OF WALES
MARBLE TERRACE LLANDSYUL CEREDIGION SA44 4DT
Tel: 01559 363 222 Email: info@telynauteifi.co.uk
Company No. 04821960